

Titradiad darglufesurol asid–alcali

Mae'r adnodd hwn yn cyd-fynd â fideo ac erthygl Cemeg Arddangos Shocking revelations, sy'n dangos titradiad darglufesurol o fariwm hydrocsid gydag asid sylffwrig(vi) ac maent ar gael yn: <https://rsc.li/3ldVQoD>

Amcanion dysgu

- Adnabod pa ïonau sydd mewn hydoddiannau asidig ac alcalïaidd.
- Disgrifio'r newidiadau mewn crynodiadau ïonig mewn niwtraliad asid-alcali.

Cwestiynau

1. (a) Beth ydych chi'n galw'r gronynnau mewn hydoddiant sy'n dargludo trydan?

- (b) Beth yw enwau'r gronynnau hyn yn y ddau hydoddiant sy'n cael eu defnyddio? Ysgrifennwch y symbolau ar gyfer y gronynnau hyn.

2. (a) Beth sydd wedi digwydd i nifer yr ïonau sy'n bresennol yn yr hydoddiant pan gyrhaeddir y diweddbwynt?

- (b) Os yw'r gwaddod yn fariwm sylffad, pa ïonau mae hyn yn eu tynnu o'r hydoddiant?

3. (a) Pa ïonau eraill sy'n bresennol ar ddechrau'r titradiad?

- (b) Beth sydd wedi gorfod digwydd i'r ïonau hyn adeg cyrraedd y diweddbwynt?

4. Ysgrifennwch hafaliad ïonig ar gyfer yr adwaith rhwng yr ïonau a nodir yng nghwestiwn 3.

5. Pam wnaeth yr hydoddiant ddargludo eto pan ychwanegwyd rhagor o fariwm hydrocsid ar ôl y diweddbwynt?

Cydnabyddiaethau

Mae'r adnodd hwn yn seiliedig ar daflen waith a gafodd ei chreu'n wreiddiol fel rhan o'r [Nuffield practical collection](https://nuffieldpracticalcollection.org/), sydd wedi cael ei ddatblygu gan Sefydliad Nuffield a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol.